


Dull o Adnewyddu Cyflenwadau a Rennir


Bydd yna amryw o amgylchiadau lle mae pibellau cyflenwi plwm cwsmeriaid ar gyflenwadau a rennir. Mae cyflenwadau a rennir yn nodedig o gymhleth oherwydd yr anawsterau sydd ynghlwm wrth gysylltu â'r holl gwsmeriaid a chytuno ar ddull o weithredu y mae pawb yn cytuno ag ef (mae yna gyflenwadau a rennir â hyd at 18 o wahanol gyflenwadau). Sicrhau eu bod yn cael eu rhannu'n gyflenwadau ar wahân wrth eu hadnewyddu yw'r dull delfrydol o fynd ati er mwyn gwytnwch y rhwydwaith. Am hynny, mae angen cytuno ar broses ar gyfer rheoli'r rhain, a gallent ddarparu nifer sylweddol o'r adnewyddiadau sydd eu hangen i gyflawni'r targedau.

Mae'r ffigurau isod yn dangos graddfa bosibl adnewyddiad pibellau cyflenwi cwsmeriaid (naill ai i stop tap cyntaf y cwsmer neu i'r pwynt mynediad cyntaf i orchudd gwres yr adeilad (p'run bynnag sydd agosaf)), a darlun safonol y cwmni sy'n dangos trefniadau cyffredin pibellau cyflenwi cwsmeriaid (o'r polisi gollyngiadau preifat).

Hyd posibl pibell gyflenwi'r cwsmer



Trefniadaeth gyffredin pibellau cyflenwi cwsmeriaid



Ein cyfrifoldeb

- Prif bibell ddŵr
- - - - Pibell gyswll

Cyfrifoldeb y cwsmer

- Pibell gyflenwi breifat
- - - - Pibell gyflenwi breifat a rennir

Ffin yr eiddo

- Tap stop/Mesurydd
- - - - Ffin y stryd

Mae'r tabl isod a'r dulliau y mae'n eu hesbonio yn mwyafu'r potensial ar gyfer cael adnewyddiad cydnabyddedig trwy benderfyniad OFWAT ac wrth fodloni'r targed rheoliadol. Mae'n cynnwys mân-amrywiadau o dull gweithredu cymeradwy / safonol y cwmni (e.e. y polisi ar ollyngiadau preifat). Ymgynghorwyd â'r tîm cyfreithiol wrth lunio'r tabl isod hefyd.

Opsïwn Dewisol	Dull Gweithredu	Dull Cymeradwy / Safonol	Allwedd +if	Allwedd -if	Mesurau Lliniaru Ychwanegol	Diagram
1	Cwsmeriaid yn dod â chyflenwadau newydd a ni'n cynnig cysylltiad am ddim	Ydy	Ochr y cwsmer yn cael ei gyflawni heb unrhyw gost i DCWW Atebolrwydd cyfyngedig Mae'n dileu'r cyflenwad a rennir	Ni fydd cwsmeriaid bregus yn gallu gwneud hyn Mae gofyn bod yr holl gwsmeriaid yn cytuno ac yn gwneud hyn yr un pryd	Cyfathrebu / gwybodaeth i gwsmeriaid	
2	DCWW yn gosod cyflenwadau newydd o'r brif bibell i stop tap cyntaf y cwsmer	Nac ydy	Haws cael y cwsmeriaid i gytuno Mae'n dileu'r cyflenwad a rennir Mae'n cynorthwyo cwsmeriaid bregus	Cost Atebolrwydd Mynd yn groes i'r polisi Gollyngiadau Preifat nad yw'n gosod cyflenwadau newydd i ddileu cyflenwadau a rennir Creu 'Llwybr Newydd' i'r bibell gyflenwi	Gofynion hyfforddi a hyfedredd ar gyfer gosod i stop tap cyntaf y cwsmer / gorchudd gwres yr adeilad Cyfathrebu / gwybodaeth i gwsmeriaid	
3	DCWW yn adnewyddu'r cyflenwad a rennir yn y lleoliad	Nac ydy	Cwsmeriaid yn cydsynio am fod DCWW yn cyflawni'r gwaith Ddim yn torri 'Llwybr Newydd' i'r bibell gyflenwi Tynnu'r plwm	Nid yw'n cynnal gwytnwch y rhwydwaith at y dyfodol wrth aros ar y cyflenwad a rennir	Gofynion hyfforddi a hyfedredd ar gyfer gosod i stop tap cyntaf y cwsmer / gorchudd gwres yr adeilad Cyfathrebu/ gwybodaeth i gwsmeriaid	
4	Adnewyddu'r cysylltiadau yn unig	Ydy	Rheoli'r gwaith Tynnu'r plwm	Efallai na fydd yn sicrhau adnewyddiad yn ôl safonau OFWAT	Cyfathrebu/ gwybodaeth i gwsmeriaid	

Allwedd

- Pibell gyflenwi wedi ei adnewyddu gan gwsmer
- Pibell gyflenwi wedi ei adnewyddu gan DCWW
- Dim adnewyddu plwm y bibell gyflenwi
- Pibell/newydd wedi ei hadnewyddu gan DCWW
- Llwybr gwreiddiol y bibell gyflenwi a rennir
- Prif bibell ddŵr
- Pibell gyswllt
- Pibell gyflenwi breifat
- Ffin yr eiddo
- Top stop/Mesurydd
- Ffin y stryd